

Taflen Ffeithiau

Amodau Tai



Ydych chi'n byw mewn llety wedi ei rentu ac mae angen gwneud gwaith atgyweirio?

Wrth rentu eiddo, mae gan y tenant a'r Landlord gyfrifoldebau penodol, a nodir fel arfer mewn cytundeb tenantiaeth. Fel arfer cyfrifoldeb y Landlordiaid yw cynnal yr adeilad a thu allan yr eiddo, draeniau, gwteri, pibelli, llwybrau gardd, grisiau, gwifrau trydanol, sinciau, baddonau, toiledau, gwresogyddion sefydlog a gwresogyddion dŵr. Dylid rhestru gwaith atgyweirio mewnol yn amodau'r denantiaeth.

Gallwch gymryd achos sifil drwy'r llys sirol er mwyn sicrhau bod gwaith atgyweirio yn cael ei wneud. Gall Shelter Cymru helpu gyda hyn.

Beth allwch chi ei wneud:

Os ydych yn teimlo bod cyflwr yr eiddo yn effeithio ar eich iechyd neu'n achosi niwsans i eraill (e.e. mae hefyd yn effeithio eiddo cymdogion) byddem yn eich cynghori i wirio'ch cytundeb tenantiaeth i weld beth yw cyfrifoldebau'r Landlord. Ceisiwch drafod gyda'ch Landlord.

Peidiwch â gwrthod talu'ch rhent oherwydd diffyg gwaith atgyweirio, gallech chi gael rhybudd i adael yr eiddo oherwydd hyn, a gallai effeithio'ch cyfle i gael cartref arall.

Os nad yw hyn yn llwyddiannus cysylltwch ag Adran Gorfodi Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a fydd yn asesu'r eiddo, ffoniwch 01492 574173.

Beth all y tîm Gorfodi ei wneud?

Yn ddibynnol ar gyflwr yr eiddo efallai bydd yr Adran Gorfodi Tai yn rhoi rhybudd i'ch Landlord a fydd yn eu gorfodi i wneud y gwaith angenrheidiol. Bydd y Rhybudd hefyd yn cynnwys amserlen a bydd yn rhaid i'r Landlord wneud y gwaith a nodir erbyn y dyddiad penodol neu efallai bydd y Tîm Gorfodi Tai yn cymryd camau pellach. Gall y Landlord gael ei erlyn am fethu gwneud y gwaith ac mewn rhai achosion bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud y gwaith.

Mewn rhai achosion bydd yr Adran Gorfodi Tai yn penderfynu nad oes modd atgyweirio'r eiddo. Os felly bydd yr eiddo fel arfer yn cael ei ddatgan fel un annrhigiadwy (ni ddylid byw yno).

Bydd Gorfodi Tai wedyn yn rhoi gwybod i'r Tîm Datrysiadau Tai am hyn.

Os byddwch yn penderfynu cymryd camau gweithredu yn erbyn eich Landlord oherwydd diffyg atgyweirio, ystyriwch y denantiaeth sydd gennych. Efallai bydd y Landlord yn rhoi Rhybudd ichi, er nad yw hyn yn digwydd bob amser.

Os byddwch yn derbyn Rhybudd, cysylltwch â Datrysiadau Tai Conwy ar 0300 1240050. Bydd Swyddog yn gallu rhoi cyngor a chymorth pellach ichi.



Shelter

Cymru

☎ 01792 469400

💻 www.sheltercymru.org.uk

📍 Unit 5, Station Bldg., Bodfor St, Rhyl LL18 1AT



☎ 0344 477 2020

💻 www.citizensadvice.org.uk

📍 Eryl Wen, Eryl Place, Llandudno, Conwy LL30 2TX

